

Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1253(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 15 Rhagfyr 2009

At William Graham:

Par: Cyfarfod Llawn 2il Rhagfyr 2009

Ysgrifennaf parthed y cyfarfod llawn uchod pan gytunais i anfon ymateb ysgrifenedig atoch ynghylch y cyfleoedd am brofiad gwaith yn Ne-Ddwyrain Cymru.

Yng Nghymru, gweithredir cynllun profiad gwaith o'r enw Graduate Opportunities Wales (GO Wales) a lansiwyd yn 2003 gydag Arian Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Rheolir y rhaglen gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac fe'i chyflwynir mewn partneriaeth â Gwasanaethau Gyrfaedd Prifysgolion. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar roi cymorth i raddedigion a myfyrwyr gyda'r bwriad o wella lefelau sgiliau uwch mewn busnesau bach a chanolig yng Nghymru trwy roi gwybodaeth am gyfleoedd gwaith, cyngor ar yrfaedd, cyngor ar ddechrau busnes a lleoliadau gwaith.

Mae'r cynllun wedi bod yn amhrisiadwy i fusnesau Cymru yn yr ardal cydgyfeirio am ei fod wedi eu galluogi i gael mynediad at sgiliau lefel uwch ac mae rhai wedi derbyn arian cyfatebol ar gyfer hyfforddi a datblygu graddedigion sydd o fudd i'r graddedig a'r busnes sy'n ei dderbyn ar leoliad. Mae adolygiadau'n cael eu cynnal ar y posibilrwydd o gynnwys cwmnïau mawr ychwanegol yn y cynllun a mwy o fusnesau mewn ardaloedd y tu allan i'r ardal cydgyfeirio.

Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1285(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 23 Rhagfyr 2009

At Andrew R.T. Davies:

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch Cwestiwn Llafar ar 2 Rhagfyr ynghylch y paratodau am dywydd garw dros y gaeaf i ddod.

Yn dilyn digwyddiadau'r gaeaf diwethaf mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn rhan o drafodaethau ledled y DU i ledaenu'r arfer gorau o ran gweithgareddau cynnal a chadw Awdurdodau Priffyrdd dros y gaeaf. Cynhaliodd Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU (UKRLG) yr adolygiad hwn o dan gyfarwyddyd Gweinidogion yr Adran dros Drafnidiaeth.

Dangosodd yr adolygiad fod mwy o ddeialog, cydweithio a gwaith partneriaeth wedi digwydd yn ystod cyfnod y tywydd garw ym mis Chwefror rhwng pob haen o Lywodraeth Cymru nag yn ardaloedd eraill y DU. Er gwaethaf yr amgylchiadau anodd ar y pryd, gwnaeth y gallu hwn i gyd-weithio a rhannu adnoddau sicrhau ei bod yn haws cydgysylltu'r mesurau argyfwng yng Nghymru.

Fodd bynnag, trwy gydol y flwyddyn, trwy ein gwaith gyda'r UKRLG a'n paratodau ein hunain, rydym wedi cymryd camau i sicrhau y bydd cyn lleied o amharu â phosib yn digwydd yn ystod gaeaf 2009-10, os ceir cyfnod hir o dywydd gaeafol oer, garw. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Mae sguboriau halen yr M4 bron yn llawn er mwyn sicrhau bod gweithgareddau lledaenu ar y draffordd yn gallu cael eu cynnal drwy'r gaeaf.

Mae'r cyflenwad o halen yn y sguboriau yn cynnwys cyflenwad wrth gefn y gellir ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar sail blaenoriaeth, fel y bo angen.

Ochr yn ochr â datblygiadau adroddiad yr UKRLG, gwnaethom ddiwygio'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd sy'n nodi'r arfer gorau ar gyfer y rhwydwaith yng Nghymru. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd Dogfen ddrafft i dair ardal yr Asiantaeth Cefnffyrdd yng Nghymru a oedd yn nodi'r arfer gorau hwn ac yn cynnig arweiniad ychwanegol pellach. Gwnaed gofynion penodol i gynnwys cryfhau gwydnwch/gallu'r Asiantaethau Cefnffyrdd a'u Darparwyr Gwasanaeth (awdurdodau lleol Cymru).

Diwygiwyd y ddogfen "Well Maintained Highways Guidance". Mynychwyd y cyfarfodydd hyn gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a gyfrannodd at y broses.

O ganlyniad i'r gweithredoedd hyn, mae gan Lywodraeth y Cynulliad a'r mwyafrif o awdurdodau lleol fwy o wydnwch a mwy o gyflenwad o halen, a byddwn oll mewn sefyllfa well i ddelio â chyfnodau o dywydd gaeafol garw, pe baent yn digwydd.

Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1306(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 4 January 2010

At Nick Bourne:

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr a'ch cwestiwn yn y cyfarfod llawn ynglŷn â Mrs Maureen Evans o Dre'r Ddôl a cherbydau sy'n mynd yn rhy gyflym ar gefnffordd yr A487.

Cyn y gwrthdrawiad diweddar, roedd archwiliad o'r cofnodion gwrthdrawiadau ar gyfer y lleoliad hwn yn dangos mai dim ond un gwrthdrawiad lle y cafwyd anaf corfforol a gofnodwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Mae'n debygol mai gwrthdrawiadau "difrod yn unig" oedd y gwrthdrawiadau eraill a ddigwyddodd yn y lleoliad hwn ac ni roddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt.

Rydym yn gweithio ar Orchymyn Rheoleiddio Traffig i gyflwyno "clustogfa" terfyn cyflymder 40 mya i fan tua 800 metr i ogledd y terfyn cyflymder 30 mya presennol. Nid yw'n ymarferol ymestyn y terfyn cyflymder 40 mya ymhellach i'r gogledd i gynnwys y rhan o'r gefnffordd ger y Porthdy oherwydd y pellter dan sylw, ond yn ddiweddar rydym wedi gwella'r arwyddion yn yr ardal i ddangos trefn y ffordd a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.